

---

# **Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Cyfanwerthol – Ansawdd Gwasanaeth Openreach**

Ymgynghoriad pellach ar atebion arfaethedig ar gyfer  
ansawdd gwasanaeth

---

## **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 23 Hydref 2020

Dyddiad Cau ar gyfer derbyn Ymatebion: 4 Rhagfyr 2020

# 1. Trosolwg

Ym mis Ionawr 2020, fe wnaethom ymgynghori ar ein hadolygiad o'r marchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog cyfanwerthol (WFTMR) ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2026. Roedd hyn yn cynnwys cynigion ar atebion ansawdd gwasanaeth (QoS) ar gyfer y marchnadoedd mynediad lleol cyfanwerthol (WLA), mynediad llinellau ar brydles (LLA) a marchnadoedd cysylltedd rhyng-gyfnewid (IEC), lle roeddem wedi nodi dros dro bod gan BT bŵer sylweddol yn y farchnad (SMP).

Mae'r ddogfen hon yn nodi rhai newidiadau i'r cynigion hyn, ac rydym wedi'u gwneud yn dilyn ymatebion i'n hymgyngoriad ym mis Ionawr, yn ogystal â newidiadau i arferion adrodd am namau ers hynny, ac ystyried Covid-19.

## Yr hyn rydym ni'n ei gynnig

**Covid-19:** Ystyried y pandemig drwy adolygu priodoldeb y safonau Ansawdd Gwasanaeth yn ystod Blwyddyn 1 y cyfnod WFTMR. Byddwn yn asesu a ddylid cadw, dileu neu ddiystyru rhai neu'r cyfan o'r safonau Ansawdd Gwasanaeth yng ngoleuni perfformiad Openreach a ffactorau eraill sy'n ymwneud â Covid-19.

**Dyddiad Ar Gael Cyntaf WLA:** Llacio'r safon Ansawdd Gwasanaeth arfaethedig fel y byddai'n rhaid i Openreach gynnig apwyntiad gosod o fewn 12 diwrnod gwaith, ar 89% o achlysuron. Gosodwyd y safon hon ar 10 diwrnod gwaith yn ystod y cyfnod cydymffurfio diweddaraf (2020/21) ac fe wnaethom gynnig cynnal y safon hon yn ymgynghoriad mis Ionawr. Fodd bynnag, mae cynnydd sylweddol a pharhaus yn nifer y gwaith trwsio ers mis Mehefin yn awgrymu bod Openreach angen mwy o hyblygrwydd o ran adnoddau.

**Atgyweirio WLA:** Newid y diffiniad o 'fai' i eithrio namau sy'n cael eu codi'n awtomatig. Byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd i Openreach a'r diwydiant gytuno ar ffyrdd o weithio sy'n mynd i'r afael â'r heriau sy'n codi yn sgil cyflwyno namau sy'n cael eu profi gan beiriant yn rhagweithiol.

**Rhanbarthau Rheoli WLA:** Lleihau nifer y rhanbarthau y cyfeirir atynt yn y safonau Ansawdd Gwasanaeth arfaethedig a'r gofynion adrodd, fel eu bod yn adlewyrchu newidiadau i strwythur gweithredol Openreach.

**Canradd Uwch Ethernet:** Newid dyluniad y safon Ansawdd Gwasanaeth arfaethedig, fel ei bod yn canolbwyntio ar orchmynion agored. Fel cyfartaledd dros bob cyfnod cydymffurfio blynyddol, byddai'n rhaid i Openreach gael dim mwy na 5% o'i archebion agored sy'n hŷn na 133 diwrnod gwaith ar ddiwrnod calendr olaf pob mis yn ystod y cyfnod cydymffurfio. Byddai hyn yn dileu unrhyw gymhelliant ar Openreach i beidio â chau gorchmynion hŷn ac adlewyrchu'n well pa berfformiad y gellir ei gyflawni'n rhesymol.

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol Ethernet:** Gwneud mân newidiadau i un o'n rhwymedigaethau adrodd arfaethedig ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar Openreach, i ddileu oedi a achosir gan gwsmeriaid o'r amserlen. Gwneir hyn er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â DPA cysylltiedig.

## Y camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 4 Rhagfyr 2020. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein penderfyniad terfynol ynghylch yr adolygiad o'r farchnad telegyfathrebiadau sefydlog cyfanwerthol erbyn 31 Mawrth 2021.